

PRYDDEST GOFFAWDWRIAETHOL.

"Y DIWEDDAR JOHN GREY (EURFRYN)."

I.

"Yn nron llawr estron lle'rwyf."—Gwosswa.

Ger y Felin ar y bompren
Yr eisteddwn wrth fy hun,
Gylech y pryd y laesa'r aden,
Ac y cais aderyn hân;
Dod yr oeddylt yn finteioedd
Tua'r goedlan yn yr llwyr,
Yna, wedi alaw swynber,
Megys plant yn dweyd eu pader,
Huno,—wedi blino'n llwyr,
Hawdd oedd dweyd mai adar dinod
Cymru oeddylt wrth eu llun,
Wedi'u geni'n dlawd yn nythod
Gellydd Gwalia bob yr un;
Ac er myn'd bob dydd i grwydro
Dros y mynydd maith a'r rhos,
Cofient am eu manau geni
Yn yr ynn, y gwern a'r deri,
A dychwelent gyda'r nos.
Rhwing mintoioedd adar Cymru
Gwelswn un aderyn prudd,
Megys estron yn gwamalu
Drwy lwyd-oleu y cyhudd;
Gostwng wnaeth ei esgyll bliuiau
Yn yr yw, wrth Dwr y Llan,
Canodd alaw ddeu-nod—"Gwew,"
Yna cysgodd gyda'r marw
Oedd yn cysgu gylech y fan.
Dranoeth, ac am dymor cyfan,
Clywais ef o dro i dro
'N haner canu, haner cwyu-fan,
Fel afradlon pell o'r fro;
Clywais ef yn mhob dewis-lwyn,
Hwyr a boreu, 'n canu'i saln,
Ond aderyn tranor ydoedd,
Yn hiraethu am winllanoedd,
Ac, am fro'r bonheddig balm,

Dyma'r wedd y tarfwyd ymaith
Llawer Awen loyw o'i phlwy,
Ond a gânodd yn ei hiraeth
Fel yr eos dan ei chlwyr;
A phled awn ar heddlam heno
Er Amerig lydan, draw,
Mi a gallwn feini cofia
Methion anwyl Awen Gwalia
Wedi'u codi yma a thraw.

Mi ddarllewn, fel mewn llyfyr,
Ar y llafnan llwyd di-faleh,
Eras lyth renau onw'r Myfyr,
Yntau Rhisiart Ddu a'r Gwaleh;
A pho dangosesid i mi
Feddrod beddau beirdd y byd,
Bedd Goronwy, alltud truan,
Mi a awn dalaiethau cyfan
Er ei weled—dyna i gyd.

Ond rhaid galw'n Mhare y Deri,
Ger New Castle, rhag y blaen,
Lle mae gwr oedd gyfaill imi,
Aros, f'awen—dyma'r maen;
Eurfryn anwyl! dyma'r enw,
Dyma ddiwrnod claddu'r Barudd;
Dyma'r cofnod,—dyma'r cyfan,
Ond y Prydydd, wyneb hardd.

Deuwch, hen adgofion ffyddlon,
A disgynwch gylech y fan,
Dim ond Eurfryn, yr adgofion
Difyr mwyach fydd fy rham;
C'ocddi llyfr, enill cadair,
Myn'd am "dro bach tua'r dref,"
Fleiriau enwog Llangyfelach,
Amser drwg a theulu trymach,
A Siloam, porth y Nef.

Er mor glyd yn Mhennsylvania
Ydyw graen dy wely gro,
Rhannu'th erw wnei di yma
Gydag estron llawer bro;
Gwn mai gwel'fai genyt orwedd
Gyda'th riant mwyn a'th âch,
Lle mae pob llythren arw
Ar y gareg fodd, a'r onw
Yn Nghymraeg y *Mynydd Bach.

*Claddfa'r teulu.